

Rhwydwaith Pwmpenni Tyfu Cymru

Rheoli Chwyn mewn Pwmpenni

Mae rheoli chwyn yn effeithiol mewn pwmpenni yn hanfodol er mwyn tyfu cnwd sy'n cyflawni ei botensial i'r eithaf. Dylid rheoli chwyn cyn ac ar ôl plannu, er y bydd yr ystod lai o driniaethau yn golygu eich bod yn annhebygol o lwyddo i dyfu cnwd cwbl lân. Isod, rhoddir canllawiau cyffredinol ar reoli chwyn, ond argymhellir yn gryf eich bod yn ceisio cyngor agronomig gan rywun â chymwysterau priodol gydol y tymor, sydd ar gael yn rhad ac am ddim drwy raglen Tyfu Cymru.

Rheoli Chwyn cyn plannu

Bydd pwysau isel gan chwyn adeg plannu'n caniatáu i gnwd cadarn ymsefydlu, er y bydd pwmpenni fel arfer yn cael eu plannu ar ddechrau neu ganol mis Mai a gall hyn gwrdd â'r don gyntaf o chwyn a ddatblygodd drwy fis Mawrth. Dylai'r tir fod yn rhydd o chwyn parhaol, yn benodol marchwellt ac ysgall. Mae'n ddefnyddiol cynllunio ymlaen-llaw i gael y canlyniadau gorau. Yn delfrydol, dylech ddewis cnwd blaenorol lle cafwyd rheolaeth dda ar chwyn, mae hyn fel arfer yn golygu grawn neu india-corn fel bod llai o faich chwyn, yn enwedig chwyn llydanddail. Mae dechrau gyda hen wely o had yn ddull defnyddiol a phwysig ar gyfer y cnwd hwn (**Ffigur 1**). Caiff y pridd ei drin a defnyddir gwrtaith/calch (os bydd angen) a'i weithio i mewn i'r tir 4-6 wythnos cyn plannu. Yna gadewir y tir er mwyn i don o chwyn ymddangos, a chaiff y rhain eu llosgi ymaith, fel arfer gan ddefnyddio Glyffosad 2 wythnos cyn plannu.



Ffigur 1. Pwmpenni wedi'u plannu mewn hen wely o had gyda lefel uchel o reolaeth gynnar ar chwyn.

Yna bydd plannu neu rychu'n digwydd gan amharu cyn lleied â phosib ar y pridd ac yn syth ar ôl plannu neu rychu, defnyddir chwynladdwr gweddilliol. Gwneir hyn fel arfer ym mis Mai, ac felly os bydd y tywydd wedi bod yn dda yna dylai'r pridd fod yn sych ac yn ddigon cynnes i gynnal y cnwd ifanc, ond os bydd strwythur gwael i'r pridd neu y caiff ei weithio'n rhy fân, yna gall ddirywio neu fynd yn "drist".

Ar ôl rychu neu blannu defnyddir cymysgedd o chwynladdwr gweddilliol ar y cnwd. Gellir defnyddio *Propyzamide* (e.e. Kerb Flo) dan EAMU (2416/08) fel chwynladdwr cyffredinol, yn cael ei wasgaru hyd at 1.875 L/ha ar 400g/L. Mae'n ddefnyddiol ar amrywiaeth o chwyn, gan gynnwys gweiriau, ond yn aneffeithiol ar chwyn cyfansawdd gan gynnwys amranwen, creulys a chedorwydd. Gall planhigion bychain, anaeddfed weld ataliad bychan o ran twf,

ond am gyfnod byr yn unig y bydd hyn yn parhau. Gellir defnyddio *Clomazone* (e.e. Gamit) dan EAMU (2831/15) fel chwynladdwr eang ei ddefnydd i reoli gwlydd y perthi, gwlydd, coegberllys, rhwyddlwyn, danadl a phwrs y bugail. Gellir ei ddefnyddio ar gyfradd o 0.25 L/ha, er mai hanner y gyfradd hon a ddefnyddir yn aml. Yn yr un modd, gall hwn achosi ataliad bychan yn nhyfiant y cnwd. Gellir defnyddio *Dimethenamid-p + Pendimethalin* (e.e. Wing-P) hefyd dan EAMU (0619/18) i reoli gweunwellt blynyddol a chwyn llydanddail gydag uchafswm dogn o 4 L/ha. Gall Wing-P gael effaith sylweddol ar dyfiant cynydau felly rhaid ei ddefnyddio'n ofalus – ni ddylid ei ddefnyddio ond fel chwynladdwr rhwng rhesi mewn cnwd sydd wedi'i blannu, ac nid yw'n cael ei argymhell ar gyfer cnwd mewn rhychau a'r peth gorau yw ei ddefnyddio ar gyfradd is i leihau'r effaith ar y cnwd.

Nid yw'r chwynladdwyr a nodir uchod yn cael fawr o effaith wrth gyffwrdd ac felly rhaid eu defnyddio cyn i chwyn ymddangos. Ar ôl ymddangos/plannu, cadwch lygad ar y cynnydd yn ddyddiol, os gwelir chwyn gweithredwch ar unwaith gan ddefnyddio chwynladdwyr cyswllt uniongyrchol. Gellir trin y tir a cheibio chwyn yma, ond bydd y chwynladdwyr a ddefnyddiwyd yn flaenorol yn cael eu styrbio a gallent alluogi mwy o chwyn i egino. Dan amodau da, bydd y cnwd yn ymddangos a'r planhigion yn tyfu'n gyflym ac yn fuan yn gorchuddio wyneb y pridd, gan rwystro twf chwyn. Osgowch ddefnyddio chwynladdwr mewn tywydd oer neu wyntog er mwyn osgoi effeithiau niweidiol ar y cnwd, er y gall hyn fod yn anodd yn ystod cyfnodau oer/gwlyb ym mis Mai neu Fehefin fel y rhai a welwyd yn 2019. Fe wnaeth tywydd gwael a'r defnydd o chwynladdwyr atal twf cynydau mewn sawl achos a gwanhawyd perfformiad felly mae'n bwysig trin cynydau mewn amgylchiadau delfrydol yn unig. Gall chwyn sy'n blaguro'n hwyr (e.e. troed yr wÿdd) ymddangos yn ddiweddarach (hyd yn oed os yw'r pridd yn sych) a gall dyfu'n fwy na'r cnwd yn gyflym felly mae'n bwysig gweithredu pan fo'r chwyn yn fychan. Mae *Polygonum* spp gan



gynnwys elinog goch, canclwm a thaglys yr ŷd yn aml yn broblem, ac felly hefyd amranwen.

Ffigur 2. Gall Amranwen (ar y dde) a throed yr wÿdd (chwith) sefydlu'n ddiweddarach yn y tymor a gallant fygu cnwd yn gyflym. Gall hyn fod yn broblem arbennig i gnydau pwmpenni hel-eich-hun lle y gall chwyn rwystro mynediad cwsmeriaid at bwmpenni yn y cae.

Gallai tyfwyr organig ddefnyddio gorchudd i gadw'r golau allan fel polythen tomwellt du ar wely neu ddeunydd wedi'i wehyddu i orchuddio'r tir ac sy'n para am gyfnod hir fel Mypex, a allai gael ei ddefnyddio am 10 mlynedd os caiff ofal. Gellir cael effaith debyg i hen wely had drwy blannu ymlaen llaw gyda gorchudd tebyg i'r uchod, ac yna ei dynnu ar ôl mis neu ddwy a rhychu/plannu.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylai'r holl gemegolion amddiffyn cynydau gael eu defnyddio'n unol â'r argymhellion ar y label, a dylid ymgynghori â'r argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion ar labeli ar gyfer eu defnyddio ar gnydau pwmpenni ond eu bod yn cael eu caniatáu drwy'r Estyniad o Ganiatâd ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU dan y 'Trefniadau Hirdymor Diwygiedig ar

gyfer Ymestyn Defnydd (2002)'. Yn yr achosion hyn, defnyddir y plaladdwr ar risg y defnyddiwr ei hun ac nid yw Tyfu Cymru'n derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaeth ar labeli ac EAMU ar gyfer defnyddio plaladdwyr ar gnydau pwmpenni yn gywir adeg ysgrifennu. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan gynghorydd sy'n gymwys dan BASIS - mae hyn ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer tyfwyr cymwys drwy raglen Tyfu Cymru, cysylltwch â ni i drefnu ymweliad â'ch safle.